# ATODIAD 1

# YMATEBION DRAFFT GAN YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB I'R MATERION A GODWYD GAN Y RHAI YR YMGYNGHORWYD Â HWY YNGHYLCH Y DRAFFT O'R CYNLLUN LLEIHAU RISG 2007-08.

| | |
|---|---|
| Cyfran. | = cod rhif y cyfrannwr |
| Cod: | |
| N | = canmoliaeth neu gefnogaeth |
| E | = yn awgrymu cywiriad i'r ddogfen ddrafft, neu'n tynnu sylw at wall |
| D | = sylw negyddol, yn anghytuno gyda bwriad yn y Cynllun |
| X | = sylw cyffredinol (yn cynnwys rhai heb fod yn ymwneud yn uniongyrchol a'r ymgynghoriad |
| Z | = awgrymu gwelliant neu ychwanegiad i'r bwriadau yn y Cynllun |
| Q | = gofyn cwestiwn |

## AM Y DDOGFEN CYNLLUN LLEIHAU RISG DRAFFT

<table>
<tr><th>Cyfran.</th><th>Cod</th><th>Sylw/Mater a godwyd</th><th>Ymateb yr Awdurdod</th><th></th></tr>
<tr><td>6004</td><td>N</td><td>Canmol yr Awdurdod ar ei Gynllun drafft 'llawn gwybodaeth'</td><td rowspan="8">Yn amlwg, roedd y ddogfen ymgynghorol yn apelio at rai darllenwyr fwy na'i gilydd. Mae'n siŵr fod llunio dogfennau sy'n ateb disgwyliadau pawb yn amhosib, ond fe fyddwn yn sicr o gymryd y sylwadau beirniadol i ystyriaeth ac yn ceisio dylunio dogfen sy'n apelio i hyd yn oed ragor o ddarllenwyr y tro nesaf.</td><td>1)</td></tr>
<tr><td>6005</td><td>N</td><td>Canmol yr Awdurdod ar lunio dogfen sydd wedi chyflwyno'n dda ac yn llawn gwybodaeth.</td><td>2)</td></tr>
<tr><td>6007</td><td>N</td><td>Canmol the Awdurdod am ei ddogfen ymgynghorol ar y Cynllun sydd wedi ysgrifennu'n hynod o dda ac yn ddeniadol.</td><td>3)</td></tr>
<tr><td>60011</td><td>N</td><td>Llongyfarch yr Awdurdod ar lunio dogfen sy'n hawdd ei darllen ac yn cynnwys llawer o fentrau a fydd yn cyfrannu at ddiogelwch pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru.</td><td>4)</td></tr>
<tr><td>60013</td><td>D</td><td>Cwyno bod cyfresi data annigonol wedi eu cynnwys yn y Cynllun drafft.</td><td>5)</td></tr>
<tr><td>60013</td><td>D</td><td>Cwyno bod strwythur yr ymgynghoriad yn wael ac yn anodd ei ddarllen, gyda thystiolaeth ystadegol wedi ei chyflwyno mewn ffordd gamarweiniol gydag ystadegau blynyddol a phedair blynyddol yn gymysg yn yr un paragraffau. Cwyno hefyd nad oes digon o fanylion i allu asesu a fydd diogelwch y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan yr Awdurdod yn gwella ai peidio.</td><td>6)</td></tr>
<tr><td>6001</td><td>Z</td><td>Byddai'n well gweld yr Awdurdod yn lleihau nifer y bwriadau yn ei Gynllun i hanner dwsin o gynlluniau gwella clir a gellir eu holrhain hyd nes y byddant wedi eu cwblhau.</td><td>7)</td></tr>
<tr><td>60010</td><td>Z</td><td>Awgrymu y gallai Dogfen y Cynllun fod wedi ei roi dan dri phennawd yn unig – 1. Cynlluniau pendant 2. Meysydd o'r gwasanaeth i'w hadolygu; a 3. Pwyntiau i'w hystyried a'u datblygu.</td><td>8)</td></tr>
</table>

DRAFT

## CANMOLIAETH A CHEFNOGAETH

| Cyfran. | Cod | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|---|
| **6003** | **N** | Nodi bod y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod yn y blynyddoedd diwethaf yn galonogol, a mynegi cefnogaeth arbennig i rôl Rheolwr Diogelwch y Siroedd. | Mae'r Awdurdod wedi ei galonogi'n fawr gan y sylwadau hyn o gefnogaeth, a byddai'n hoffi ategu'r diolch i'r staff am eu hymroddiad parhaus i darparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yng Ngogledd Cymru. | 9) |
| **6003** | **N** | Diolch i'r Awdurdod am 'y gwasanaeth rhagorol yr ydych yn ei ddarparu'. | | 10 |
| **6006** | **N** | Balch fod yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r heriau a ddaeth yn sgîl y Ddeddf Argyfyngau Sifil. | | 11 |
| **6006** | **N** | Cymeradwyo'r Awdurdod am sefydlu a datblygu perthynas weithio a phrotocolau gyda'r awdurdodau unedol sydd hyd yn oed yn agosach. | | 12 |
| **6006** | **N** | Mynegi gwerthfawrogiad personol i staff y Gwasanaeth am eu hymroddiad, ac mewn sawl achos, am eu dewrder. | | 13 |
| **6007** | **N** | Cefnogi bwriad yr Awdurdod i gydweithredu ar sail Cymru gyfan mewn perthynas â mentrau gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, iechyd galwedigaethol a chaffael. | | 14 |
| **60010** | **N** | Cefnogi cynlluniau'r Awdurdod i roi rhagor o offer achub ar bob peiriant tân. | | 15 |
| **60010** | **N** | Cefnogi cynlluniau'r Awdurdod i ddatblygu strategaeth gydlynedig i reoli nifer y gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'u difrifoldeb. | | 16 |
| **60010** | **N** | Cefnogi bwriad yr Awdurdod i weithredu strategaeth i roi addysg a gwasanaethau atal i gartrefi sydd y tu allan i'r Safon Gwasanaeth 10 munud. | | 17 |
| **60010** | **N** | Cefnogi'r cynllun i wella argaeledd gwybodaeth am safleoedd i griwiau sy'n mynd at ddigwyddiad. | | 18 |
| **60010** | **N** | Cefnogi safiad yr Awdurdod ar faterion amgylcheddol. | | 19 |
| **60010** | **N** | Cefnogi bwriad yr Awdurdod i ddarparu cyfleoedd datblygu i'w Aelodau, ac awgrymu y dylai ymgynghori â staff a chyrff cynrychioliadol fod yn rhan o'u rhaglen ddatblygu. | | 20 |
| **60013** | **N** | Cefnogi bwriad yr Awdurdod i ddiweddaru'r holl offer achub hydrolig ar beiriannau tân ac achub rheng flaen. | | 21 |
| **60013** | **N** | Cefnogi'r rhan fwyaf o'r mentrau diogelwch tân cymunedol y mae'r Awdurdod yn eu cynnig. | | 22 |
| **60013** | **N** | Cymeradwyo cynlluniau'r Awdurdod i ehangu'r gwaith o gyflwyno addysg diogelwch tân trwy ysgolion a chymunedau lleol. | | 23 |
| **60014** | **N** | Cefnogi datblygu gorsaf dân gymunedol yn y Rhyl. | | 24 |
| **60014** | **N** | Croesawu'r pwyslais ar elfennau cymunedol o waith y Gwasanaeth. | | 25 |
| **60015** | **N** | Cefnogi'r gwaith yn y gymuned a wneir gan y Gwasanaeth. | | 26 |
| **60015** | **N** | Cefnogi cynllun yr Awdurdod i ddarparu rhagor o offer achub ar bob injan dân. | | 27 |
| **60016** | **N** | Mynegi'r farn fod cynnwys y Cynllun drafft, sef 'dogfen gynhwysfawr a llawn iawn' yn galonogol iawn, yn enwedig gan fod yr Awdurdod yn amlwg yn ymwybodol o gymunedau gwasgaredig ac eiddo mwy anghysbell. | | 28 |

DRAFT

## DIFFYGION A GWALLAU YN NOGFEN DDRAFFTT Y CYNLLUN DRAFFT

| Cyfran. | Cod | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|---|
| **6005** | **E** | Pwyntio allan nad yw rhai o'r symbolau ar y map ar dudalen 22 yn cyfateb i'r allwedd. | Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i dynnu sylw at y materion prawf-ddarllen hyn.<br>Oherwydd y costau, nid ydym yn bwriadu ailargraffu'r ddogfen ymgynghorol, ond byddwn yn sicrhau bod:<br>**1.** y symbolau ar y map ar dud. 22 yn gywir y tro nesaf y caiff ei gynhyrchu;<br>**2.** bydd y pwyntiau gweithredu sy'n ymwneud ag ehangu FACE (tud.26) a gweithio gyda'r Heddlu (tud.29) yn cael eu hychwanegu i Gynllun Gweithredu 2007-08;<br>**3.** bydd ffynonellau'r ystadegau'n cael eu nodi mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol. Sylwer fod **gwall argraffu ar dudalen 23**. Dylai nifer y cartrefi o blith yr 80% sy'n dod o fewn y categori cyrraedd 'dan 10 munud' ddarllen 222,981, gan roi cyfanswm yn y golofn o 279,311.<br>I ateb y pwynt penodol a godwyd am nifer yr anheddau a chartrefi sydd yng Ngogledd Cymru, rydym yn cytuno y byddai nodi ffynhonnell gwybodaeth o'r fath yn gymorth i gysondeb yn y dyfodol. Er gwybodaeth:<br>**a)** Mae ystadegau CIPFA yn nodi bod 298,076 o eiddo domestig trethadwy yng Ngogledd Cymru, yn ôl ffurflen CT1 y Gofrestrfa Tir yn Hydref 2004. Dyma'r ffynhonnell a ddefnyddiwyd i gyfrifo DPGG BV142iii (tanau damweiniol mewn cartrefi).<br>**b)** mae'r amcangyfrifon o stoc cartrefi a gyhoeddwyd yn yr Ystadegau mwyaf diweddar ar Dai Cymru yn awgrymu fod ychydig dros 299,000 o gartrefi yn yr ardal.<br>**c)** Daeth y ffigwr 279,311 trwy adio ardaloedd map Gogledd Cymru. | 29 |
| **6008** | **E** | Pwyntio allan fod y 2 eitem sydd yn y brif ddogfen ar goll o'r cynllun gweithredu ar dudalen 52.<br>Mae'r rhain yn ymwneud â:<br>1. ehangu FACE i blant 12-17 oed (tud.26); a<br>2. gweithio gyda'r Heddlu yn ogystal ag awdurdodau eraill (tud.29); | | 30 |
| **60013** | **E** | Pwyntio allan fod ffigyrau anghyson am nifer y cartrefi yn y Gogledd, a bod yn nifer hwn yn wahanol i'r ffigwr yng Nghyfrifiad 2001. Hefyd, nad yw'r mapiau yn y ddogfen yn cyfateb wrth edrych arnynt gyda'i gilydd. | | 31 |
| **60013** | **E** | Pwyntio allan nad yw ffynonellau'r dystiolaeth ystadegol wedi eu nodi. | | 32 |

DRAFT

## CWYNION A MYNEGI ANFODLONRWYDD

| Cyfran. | Cod | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|---|
| **60015** | **D** | Cwyno fod yr adeg o'r flwyddyn i gynnal ymgynghoriad ar y Cynllun yn anghyfleus gan fod y rhan fwyaf o'r Cynghorau wedi torri ym mis Awst. | Tra'n cydymdeimlo â hyn, mae'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad am 12 wythnos a chyhoeddi erbyn Hydref $31^{ain}$ yn ei gwneud yn anodd gweld sut y gallai'r Awdurdod wella pethau. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd i ddod, gallai fod yn gymorth i'r Cynghorau wybod bod hwn yn ymgynghoriad blynyddol ac felly'n fodd iddynt gynllunio. | 33] |
| **6009** | **D** | Mynegi barn y byddai ystafell reoli ar gyfer Cymru gyfan yn well dewis nag unrhyw symud i gael yr un ffiniau â'r Heddlu a fyddai'r arwain at 'oruchafiaeth yr Heddlu'. | Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau'r dewis gorau posib i bobl Gogledd Cymru. | 34] |
| **60010** | **D** | Mynegi sinigiaeth nad yw'r penderfyniad i beidio â cheisio cael un ystafell reoli ar gyfer Cymru gyfan wedi ei wneud yn wrthrychol, o ystyried y cymariaethau fyddai o ran cost. | Rhaid ystyried cost unrhyw fwriad law yn llaw â manteision ariannol ac anariannol. Mae gweithio mewn partneriaeth gydag aelodau eraill o 'deulu' gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn dod i'w weld fwyfwy yn rhan o ddatblygu Cymru yn batrwm rhyngwladol o'r ffodd y mae gwledydd bychain yn cyflwyno gwasanaethau. | 35] |

DRAFT

## SYLWADAU CYFFREDINOL

| Cyfran. | Cod | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|---|
| **6006** | **X** | Er yn cefnogi ffordd yr Awdurdod o weithio mewn partneriaeth mewn llawer o faterion, rhybuddio yn erbyn dyblygu adnoddau ariannol a dynol yn ddiangen mewn ffordd o'r fath. | Nodwyd y sylwadau a'r safbwyntiau eang hyn. | 36) |
| **6009** | **X** | Mynegi syndod nad yw'r Gwasanaeth eisoes yn anfon cynlluniau adeiladau a gwybodaeth am beryglon i griwiau ar beiriannau tân. Mynegi'r farn mai ymweliadau personol i adeiladau yw'r ffordd orau i gael gwybodaeth am y camau diogel i'w gymryd mewn argyfwng. | | 37) |
| **60010** | **X** | Mynegi siom am y diffyg pwyntiau gweithredu pendant am y ddwy flynedd nesaf, a syndod na soniwyd am arferion da mewn gwasanaethau tân ac achub eraill dros y tair blynedd diwethaf. Felly'n rhagdybio bod hyn naill ai'n golygu bod newidiadau mawr dros y ddwy flynedd nesaf wedi eu hepgor o'r cynllun drafft, neu fod cyfleoedd i wella heb gael eu cymryd, ac mai ychydig iawn o newydd sydd yn yr arfaeth mewn gwirionedd. | | 38) |
| **60010** | **X** | Pwysleisio pa mor bwysig yw canfasio barn gweithwyr ar y System Dyletswydd Ran Amser, a dod â hwy yn rhan o'r broses. | | 39) |
| **60013** | **X** | Mynegi pryder nad yw systemau gwaith diogelwch yn cael eu sefydlu mewn digwyddiadau oherwydd bod gallu delio â sefyllfaoedd penodol yn gofyn am nifer penodol o ddiffoddwyr tân yn cyrraedd o fewn nifer penodol o funudau (h.y. rhwng yr un cyntaf yn cyrraedd a'r un diwethaf yn cyrraedd). | | 40) |
| **60013** | **X** | Cyhuddo'r Awdurdod o ddefnyddio'r Cynllun Integredig Lleihau Risg (IRMP) i ddarparu arbedion cost yn hytrach na mynd i'r afael â risg a gobeithio na fydd hyn yn parhau gyda'r Cynllun Lleihau Risg. | | 41) |
| **60010** | **D** | Cwyno nad yw Dogfen y Cynllun yn rhoi llawer o gyfarwyddyd i'r gweithlu. | | 42) |
| **60010** | **D** | Gofid mai ychydig o gynnydd sydd wedi ei wneud mewn perthynas â chyd-ymateb, a hynny dair blynedd ers y Cynllun Integredig Rheoli Risg cyntaf. | | 43) |
| **60010** | **D** | Siom am ddiffyg prinder cyfranogiad gan Undeb y Diffoddwyr Tân Amser yn rhaglen yr Awdurdod o adolygiadau o adnoddau dynol. | | 44) |
| **60010** | **D** | Gwrthwynebu ailgyflwyno'r safonau amser cyrraedd, gan nad ydynt 'mewn gwirionedd yn ymwneud â gofal brys yn seiliedig ar risg, y defnydd addas o adnoddau neu hyblygrwydd er mwyn moderneiddio'r Gwasanaeth'. | | 45) |
| **60010** | **D** | Cwyno am safon, natur gyfredol ac argaeledd y llenyddiaeth cyhoeddusrwydd i weithwyr y System Dyletswydd Ran Amser eu defnyddio mewn digwyddiadau bychain yn lleol. | | 46) |
| **60010** | **D** | Cwyno bod y cysylltiadau Technoleg Gwybodaeth yn wael, yn araf ac yn annibynadwy i Orsafoedd Rhan Amser. | | 47) |
| **60014** | **D** | Tra'n cefnogi cynlluniau'r Awdurdod i roi offer achub ychwanegol ar bob injan dân, cynnig bod Tendr Argyfwng yn cael ei gadw ym Mae Colwyn i wasanaethu rhan ganol yr A55 a'r cysylltiadau i'r A470 a'r A5. | | 48) |
| **60015** | **D** | Anghytuno â chynlluniau'r Awdurdod mewn perthynas â 'thendrau argyfwng o fath Land Rover' ar y sail y gall cerbydau llai fel y rhain fynd ar ffyrdd cul, llwybrau anghyfannedd a thir garw lle nad yw peiriannau mwy yn gallu. | | 49) |

DRAFT

## AWGRYMIADAU AM YCHWANEGIADAU A GWELLIANNAU

| Cyfran. | Cod | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|---|
| **6003** | **Z** | Awgrymu y byddai cylchlythyrau'r Cynghorwyr Sir eu hunain yn gyfrwng defnyddiol i roi gwybod i'r cyhoedd sut i gysylltu â Rheolwyr Diogelwch y Siroedd. | Rydym yn ystyried hyn yn syniad rhagorol a byddwn yn ei ddilyn. | 50) |
| **60012** | **Z** | Awgrymu y gallai fod yn hynod bwysig i'r gymuned gael gweld systemau taenellu dŵr yn dod yn beth gorfodol ym mhob adeilad cyhoeddus newydd neu sy'n cael ei adnewyddu megis tai gwarchod, ysbytai ac ysgolion. | Rydym yn cytuno'n llwyr â'r cynnig hwn ag yn sicrhau'n sawl a ysgrifennodd bod yr Aelodau a'r Rheolwyr fel ei gilydd eisoes yn lobïo llawer am hyn. | 51) |
| **6006** | **Z** | Awgrymu y gallai'r Awdurdod ofyn i awdurdodau tai lleol a chymdeithasau tai i atgoffa eu tenantiaid am bwysigrwydd gosod larymau mwg a gofalu amdanynt. | | 52) |
| **6008** | **Z** | Awgrymu y dylid ystyried cynnwys rhagor o bwyntiau gweithredu yn y cynllun gweithredu ar dudalen 52, yn seiliedig ar y materion sydd eisoes yn y brif ddogfen. Lle nad yw hyn yn bosib, awgrymu rhoi'r lefel nesaf o flaenoriaeth i'r rhain.<br>Mae'r rhain yn ymwneud â:<br>1. pheidio ag aros am gyllid Firelink (tud.31) cyn cael yr unedau data symudol mewn injanau tân, ond ceisio cael ffynonellau cyllid eraill yn y cyfamser;<br>2. cael map manwl o'r holl ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (tud.34) gan y Cyngor Cefn Gwlad, a rhoi'r mapiau hynny yn y gorsafoedd tân priodol; a<br>3. chael ffordd o storio cynlluniau o adeiladau mawr a mapiau o ardaloedd er mwyn i'r criwiau allu cael atynt yn hawdd. | Er ein hymrwymiad i wella mynediad at yr wybodaeth berthnasol i'r rhai sydd ei hangen ar yr adeg gywir, rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod unrhyw ateb yn un cynaliadwy a heb fod yn cau allan unrhyw opsiynau eraill – a allai fod yn well.<br><br>**1. Firelink**<br>Roedd Cylchlythyr y Gwasanaeth Tân ac Achub W-FRSC(06)09 (Mawrth 2006) yn cyhoeddi bod y Cynulliad wedi ymuno â Llywodraeth Prydain i gaffael system cysylltiadau radio newydd (Firelink), ac yn mynd i fuddsoddi rhwng £44 miliwn a £45 miliwn ynddo dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd y cynllun radio newydd yn cael ei ledaenu trwy'r DU yn 2006 ymlaen, ac fe ddylai Cymru fod yn llwyr weithredol erbyn canol 2009.<br>**2. Mapiau o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**<br>Mae12.5% o Gymru yn ardaloedd o ddiddordeb | 53) |
| **60010** | **Z** | Awgrymu y dylai cynlluniau i wella argaeledd gwybodaeth am safleoedd ymestyn i ardaloedd awdurdodau cyfagos y mae criwiau Gogledd Cymru yn mynd iddynt yn rheolaidd. | | 54) |

DRAFT

| Cyfran. | Cod | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|---|
| **60012** | **Z** | Awgrymu y gellid rhoi cyfrifiaduron glin ar injanau tân i roi gwybodaeth am gynlluniau mewnol adeiladau anghyfarwydd. | gwyddonol arbennig, sef dros 264,000 o hectarau. Mae gwybodaeth electronig yn haws ei gadw yn y fersiwn fwyaf diweddar gan osgoi'r angen i ddiweddaru copïau papur trwy'r amser. Mae hyn hefyd yn gymorth i'r criwiau sy'n dod o orsafoedd ymhellach i ffwrdd, sef yr hyn sy'n digwydd yn aml ar adeg tanau mawr.<br>**3. Cynlluniau Lloriau**<br>Yn ogystal â'r sylwadau uchod, rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth am adeiladau. | 55) |
| **6009** | **Z** | Pwyntio allan nad yw'r cynllun yn cyfeirio o gwbl at Arbed (sef amddiffyn eitemau penodol rhag cael eu difrodi wrth ymladd tân – yn enwedig yn achos pethau unigryw neu werthfawr iawn). | Mae mesurau arbed yn rhan o weithdrefnau presennol yr ochr weithredol. | 56) |
| **6009** | **X** | Gwneud sylw fod cost cyd-ymateb yn debygol o fod yn fawr gan mai mewn ardaloedd gwledig y bydd yn bennaf, a hynny'n golygu rhagor o ffioedd troi allan i staff y System Dyletswydd Ran Amser. Datgan fod hyn yn codi'r cwestiwn a fydd trefniadau cytbwys o'r ddwy ochr i'w mabwysiadu mewn perthynas â rhai tanau. | Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian tra'n gwella gwasanaethau'n barhaus.<br>Ystyriwyd y costau law yn llaw â'r manteision ariannol ac anariannol, ac ansawdd y gwasanaethau i'w darparu.<br>Yn y dyfodol, bydd addasrwydd a defnyddioldeb partneriaethau'n cael eu hystyried gan y bwrdd newydd i adolygu partneriaethau.<br>Mae canolbwyntio ar y persbectif Cymreig yn dod i'w ystyried fwyfwy yn rhan o ddatblygu Cymru fel patrwm rhyngwladol o'r ffordd gwasanaethau cyhoeddus. Mae unrhyw gostau dwyieithrwydd yng Nghymru bellach wedi eu hymgorffori o fewn y costau gweithredu arferol. | 57) |
| **6009** | **Z** | Awgrymu y gallai Cytundebau Lefel Gwasanaeth fod yn ffordd economaidd i dalu am waith arbenigol megis cyflogau, pensiynau, rheoli eiddo, iechyd galwedigaethol ac adnoddau dynol. | | 58) |
| **60010** | **Z** | Awgrymu y dylai'r Awdurdod, yn ogystal â cheisio sicrhau'r adnoddau ariannol angenrheidiol i ddarparu'r Asesiadau Risg Tân yn y Cartref, ystyried egluro pa ddewisiadau eraill y byddai'n eu hystyried pe na bai hyn yn dod yn fuan. | | 59) |
| **6009** | **X** | Gwneud sylw mai'r Cynulliad a'r awdurdodau cyfansoddol yn ôl pob tebyg sy'n cwrdd â chost cyflwyno gwasanaeth dwyieithog. | | 60) |
| **60010** | **Z** | Awgrymu y dylai'r Cynllun gynnwys rhagor o fanylion am y meini prawf ar gyfer pennu beth yw'r opsiwn orau mewn perthynas â gwasanaeth iechyd galwedigaethol. | | 61) |
| **6009** | **D** | Mynegi barn y byddai cydweithredu, mewn materion caffael, ag un o'r awdurdodau tân ac achub mawr yn Lloegr neu'r Alban sydd 'â mwy o ddylanwad mewn prynu na Cymru gyfan' yn well dewis na strategaeth gaffael genedlaethol ar gyfer Cymru. | | 62) |
| **60010** | **Z** | Pwyntio allan nad oes fawr ddim yn y Cynllun drafft am beiriannau tân, o ystyried ei fod yn fater a godwyd yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg. Pwyntio allan hefyd nad yw'r adolygiad arfaethedig o'r Peiriannau ac Ysgol ac Esgynlawr o fewn blwyddyn wedi ei gynnwys. | Mae ffocws y Cynllun ar adnabod a lleihau risgiau, i'r gymuned ac i'r Awdurdod ei hun.<br>Gwnaed penderfyniadau eisoes ynghylch peiriannau tân nad edrychwyd arnynt eto yn y Cynllun drafft ar gyfer 2007-08. | 63) |
| **60010** | **Z** | Awgrymu y dylid ystyried cyflwyno cludwyr dŵr crynswth, a thrwy hynny rhyddhau criwiau a pheiriannau tân sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gludo dŵr. | | 64) |

DRAFT

| Cyfran. | Cod | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|---|
| **60010** | **Z** | Pwyntio allan fod ystyried dulliau eraill i gludo diffoddwyr tân i ddigwyddiadau ac o gael peiriannau â chab mwy wedi ymddangos yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg, ond heb fod yn y Cynllun Lleihau Risg drafft. | Oherwydd y prosesau hirfaith, bydd y gwaith o ddatblygu Cynllun 2008-09 yn dechrau yn ystod Hydref 2006. Bydd y risgiau i bob agwedd ar gyflwyno gwasanaeth yn cael eu hystyried yn ystod y broses. | 65) |
| **60013** | **Z** | Awgrymu y dylai'r Cynllun drafft restru'r offer fydd yn cael eu cludo ar y pympiau achub newydd, lle bydd y Tendrau Argyfwng sydd ar ôl yn cael eu lleoli, a'r amser y bydd yn ei gymryd i fynd â'r offer arbenigol (nad ydynt ar beiriannau tân) i ddigwyddiadau. | | 66) |
| **60013** | **Z** | Awgrymu y dylid gohirio'r treial arfaethedig ar gyd-ymateb tan ganlyniad yr achos sydd yn yr Uchel Lys. | Ymwneud â dod o hyd i ffyrdd i leihau risg y mae'r Cynllun Lleihau Risg.<br><br>Cymerir i ystyriaeth unrhyw ddyfarniad yn yr Uchel Lys ynghylch gorfodi diffoddwyr tân trwy eu cytundeb i gymryd rhan mewn cynlluniau cyd-ymateb, ond ar wella diogelwch y cyhoedd y byddwn yn parhau i ganolbwyntio. | 67) |
| **60015** | **Z** | Annog yr Awdurdod i roi rhagor o anogaeth i bobl wneud cais i fod yn ddiffoddwyr tân ar y System Dyletswydd Ran Amser, ac awgrymu y dylai unrhyw adolygiad o'r system dyletswydd ran amser ystyried yr angen i wneud y swydd yn ddeniadol i ddarpar ymgeiswyr. | Mae llawer o Awdurdodau Tân ac Achub yn y DU wedi dod ar draws problemau tebyg wrth recriwtio a chadw diffoddwyr tân sy'n dymuno gweithio ar y System Dyletswydd Ran Amser, sydd â'r holl nodweddion a'r priodweddau personol angenrheidiol a sydd ar gael i roi gwasanaeth mewn llefydd penodol ar yr adegau o'r dydd y mae angen. Mae ymgyrchoedd cenedlaethol yn cael eu cynnal i gyflwyno'r negeseuon cadarnhaol am y Gwasanaeth heddiw.<br><br>Gwyddom am y trafferthion sy'n gysylltiedig â denu amrywiaeth o bobl i wneud cais i ymuno, a dyma faes yr ydym yn ymdrechu'n barhaus i wella effeithiolrwydd, gan wneud y defnydd gorau o gyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Gwasanaeth fel cyflogwr da i bob carfan o'i weithlu.<br><br>Mae'r Service yn rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth o amrywiaeth i'w holl staff, ac mae'n glir o ran o disgwyl i'r staff gydymffurfio'n llwyr â'i bolisi cyfle cyfartal. | 68) |
| **60013** | **X** | Gwneud sylw fod 'mynd i'r afael â record wael yr Awdurdod mewn recriwtio a chadw diffoddwyr tân rhan amser wedi ei hepgor o'r Cynllun'. | | 69) |
| **60012** | **Z** | Awgrymu nad yw merched iau, o ran recriwtio diffoddwyr tân ar y System Dyletswydd Ran Amser, wedi ei ystyried eto'n gyfle posib am waith. | | 70) |
| **60010** | **Z** | Cefnogi'r dymuniad i sicrhau gweithlu mwy amrywiol, ac annog yr Awdurdod i reoli'r broses o gynyddu'r niferoedd mewn rhai categorïau o weithwyr yn ofalus er mwyn peidio â dieithrio rhai eraill. | | 71) |

DRAFT

| Cyfran. | Cod | Sylw/Mater a godwyd | Ymateb yr Awdurdod | |
|---|---|---|---|---|
| **60011** | **Z** | Cynnig y gellid cynnal yr adolygiadau sydd yn yr arfaeth gan yr Awdurdod gydag awdurdodau tân ac achub eraill. | Fel sy'n digwydd eisoes, bydd hyn yn cael ei wneud pan fo trefniant o'r fath yn un buddiol. | 72) |
| **60014** | **Z** | Awgrymu y dylid cyfeirio at gyfranogiad y Gwasanaeth yng nghanolfan Pentre Peryglon yn Nhalacre yn y Cynllun. | Ychwanegir cyfeiriad yn fersiwn derfynol Cynllun 2007-08. | 73) |

DRAFT

## YN BENODOL AM REOLI LARYMAU TÂN AWTOMATIG

<table>
<tr><th>Cyfran.</th><th>Cod</th><th>Sylw/Mater a godwyd</th><th>Ymateb yr Awdurdod</th><th></th></tr>
<tr><td>60010</td><td>Q</td><td>Gofyn am ddatganiad clir gan Awdurdod ynghylch ei bolisi arfaethedig ar alwadau diangen gan larymau tân awtomatig, yn cynnwys sut y mae'n bwriadu gwrthbwyso'r gostyngiad anorfod yn y tâl i staff y System Dyletswydd Ran Amser.</td><td rowspan="7">Dylid nod bod safiad yr Awdurdod mewn perthynas â galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig yn canolbwyntio'n bennaf ar eiddo annomestig, ac ar systemau sy'n creu galwadau diangen dro ar ôl tro, weithiau sawl gwaith y diwrnod.<br><br>Mae'r Awdurdod o'r farn fod galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig yn dreth sylweddol ar y gwasanaeth, yn defnyddio adnoddau y gellid bod eu hangen yn rhywle arall, ac y byddai codai taliadau yn ffordd o annog perchnogion safleoedd i leihau'r niferoedd y mae'n rhaid i'r gwasanaeth droi allan.<br><br>Fodd bynnag, nid oedd Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau) (Cymru) 2006 a gyhoeddwyd gan y Cynulliad yng Ngorffennaf 2006 yn rhoi pŵer i'r awdurdodau tân ac achub godi taliadau am orfod troi allan at y galwadau diangen hyn.<br><br>Er hynny, mae llawer yn dal i gael ei wneud i geisio cael cytundeb yn y ffordd o fynd ati, a chael rheolwyr safleoedd sy'n creu'r rhan fwyaf o'r galwadau diangen problemus yma i gytuno i'r ffordd honno.<br><br>Mewn perthynas â'r sylw am daliadau i staff y System Dyletswydd Ran Amser yn benodo, mae denu ymgeiswyr addas a rhoi gyrfa werth chweil gyda'r Gwasanaeth yn ddau o'r pethau mwyaf pwysig er mwyn gallu darparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol, ond nid ydym yn cytuno y dylid saernïo hyn o gwmpas troi allan at alwadau diangen.</td><td>74)</td></tr>
<tr><td>6002</td><td>Z</td><td>Awgrymu y dylid sefydlu panel i geisio dod o hyd i ffyrdd i weithio gyda'r diwydiant amddiffyn rhag tân i leihau nifer y galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig.</td><td>75)</td></tr>
<tr><td>60013</td><td>N</td><td>Cefnogi barn yr Awdurdod y gellid lleihau nifer y galwadau diangen oherwydd larymau tân trwy ymyrryd yn rhagweithiol ac yn gadarnhaol, ynghyd ag ehangu'r systemau rheoli galwadau.</td><td>76)</td></tr>
<tr><td>60014</td><td>Z</td><td>Awgrymu y dylai'r Awdurdod ystyried codi taliadau am droi allan at alwadau diangen dro ar ôl tro gan systemau larymau tân awtomatig.</td><td>77)</td></tr>
<tr><td>60014</td><td>D</td><td>Anghytuno ag unrhyw fwriad i wrthod troi allan i ymateb i larwm tân awtomatig, ac awgrymu yn lle 'y dylai hyn o leiaf warantu presenoldeb y Gwasanaeth Tân'.</td><td>78)</td></tr>
<tr><td>60013</td><td>D</td><td>Gwrthwynebu unrhyw awgrym i ofyn i aelodau o'r cyhoedd fynd i ymchwilio os oes larwm tân yn canu, ar y sail y byddent yn cael eu rhoi mewn mwy o berygl.</td><td>79)</td></tr>
<tr><td>60013</td><td>D</td><td>Mynegi'r farn y bydd gwrthod ymateb yn effeithiol i alwadau trwy larwm yn arwain at fwy o farwolaethau, anafiadau, difrod i eiddo a cholled economaidd.</td><td>80)</td></tr>
</table>

DRAFT